

**TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O  
GABINET CYNGOR GWYNEDD**

<b>DYDDIAD Y PENDERFYNIAD</b>	31 Hydref 2024
<b>DYDDIAD CYHOEDDI'R PENDERFYNIAD</b>	4 Tachwedd 2024
<b>DYDDIAD Y BYDD Y PENDERFYNIAD YN DOD I RYM</b> ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25.1 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd.	11 Tachwedd 2024

**ENW A THEITL YR AELOD CABINET**

Y Cyngorydd Y Cyngorydd Paul Rowlinson, Aelod Cabinet Cyllid

**PWNC** Polisi Adennill Cyngor Gwynedd

**PENDERFYNIAD –**

Mabwysiadu'r Polisi Adennill.

**RHESWM DROS YR ANGEN AM Y PENDERFYNIAD –**

Gweler yr Adroddiad Swyddog atodedig

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU  
PERTHNASOL A GANIATWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Dim

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWDYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD-**

Ymgynghorwyd â –

Swyddogion Statudol Cyngor Gwynedd

**Adroddir ar ganlyniadau'r ymgynghoriadau yn yr adroddiad atodedig**

## TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD – ADRODDIAD SWYDDOG

Enw a theitl yr Aelod/au Cabinet :	Y Cyngorydd Paul Rowlinson Aelod Cabinet Cyllid
Enw a theitl Awdur yr Adroddiad :	Dewi Morgan Pennaeth Cyllid
Dyddiad y Cymerwyd y Penderfyniad:	31 / 10 / 2024
Llofnod yr Aelod/au Cabinet :	P. S. Rowlinson

### **Pwnc :**

Polisi Adennill Cyngor Gwynedd

### **Argymhelliad ar gyfer y Penderfyniad :**

Mabwysiadu'r Polisi Adennill.

### **Rheswm dros yr angen am y Penderfyniad :**

Mae casglu'r arian sy'n ddyledus i'r Cyngor yn rhan greiddiol o weithdrefnau'r Cyngor, a ni argymhellir unrhyw newid i'r trefniadau hyn. Fodd bynnag, mae mabwysiadu Polisi Adennill gynhwysfawr, fydd yn destun adolygiad rheolaidd, yn rhoi camau yn eu lle i ffurfioli'r trefniadau hyn yn ysgrifenedig, fel eu bod yn eglur i'r holl swyddogion sy'n gyfrifol am weithredu'r drefn, ac i'r holl gynghorwyr wrth iddynt ymgymryd â'u dyletswyddau.

### **Rhesymeg a chyfiawnhad dros gyrraedd y Penderfyniad :**

Mae Cyngor Gwynedd yn gyfrifol am olrhain ystod o ddyledion, ond y prif feysydd yw:

- Trethi (Treth Cyngor ac Ardrethi Annomestig)
- Gordaliadau Budd-dal a Gostyngiad Treth Cyngor
- Mân Dyledion.

Mae trefniadau adennill dyledion eisoes yn weithredol o fewn y Cyngor, a nid oes unrhyw newid i'r drefn yn cael ei gynnig yma. Fodd bynnag, bydd mabwysiadu'r Polisi yn ffurfioli'r trefniadau hyn er mwyn sicrhau fod modd arddangos trefniadau llywodraethu priodol, ac arddangos fod y Cyngor yn ymdrin â dyledion mewn modd systematig a theg.

Rhan bwysig o'r Polisi yw'r Egwyddorion Adfer. Mae'r egwyddorion hyn yn crisialu y ffordd mae disgwyl i'r holl swyddogion ymddwyn wrth adfer yr arian sy'n ddyledus i'r Cyngor. Gwneir ymrwymiad yn yr Egwyddorion Adfer y bydd unrhyw gamau adfer yn gymesur, yn gyson ac yn dryloyw.

Er fod ymrwymiad clir i sicrhau fod yr arian sy'n ddyledus i'r Cyngor yn cael ei dalu, mae'n allweddol hefyd ein bod fel awdurdod cyfrifol yn ymwybodol o'r trafferthion sydd gan rhai o'r dyledwyr i dalu. Mae'r Polisi yn nodi ei amcanion, ac yn ofalus wrth geisio cydbwysu angen y Cyngor am arian i barhau i weithredu gyda'r gofyn i fod yn gydymdeimladwy gydag amgylchiadau pobl Gwynedd.

Mae'r polisi hefyd yn cydnabod cyfrifoldeb y Cyngor o safbwynt diogelu data wrth ymdrin ag ôl-ddyledion yn ogystal â chyflwyno trefniadau i atal twyll.

#### Asesiad Risg

Ni ystyrir fod cyflwyno'r polisi yma yn cyflwyno risg i'r Cyngor. Mae mabwysiadu polisi ffurfiol yn lliniaru'r risg o her gyfreithiol i gamau adennill a gymerir.

#### Cydraddoldeb

Nod y Polisi yw sicrhau fod yr holl gamau gweithredu a gymerir gan y Cyngor yn deg drwy sicrhau fod pob dyledwyr yn cael ei drin yn gymesur, yn gyson ac yn dryloyw.

Mae Asesiad Effaith Cydraddoldeb wedi cael ei gwblhau, ac mae hwnnw'n dangos na fydd mabwysiadu'r Polisi yn cael effaith ar unrhyw garfan â nodweddion penodedig, gan fod y gweithdrefnau sydd yn y Polisi eisoes yn cael eu harfer ers sawl blwyddyn. Nodir fod camau systematig yn cael eu defnyddio er mwyn adnabod y dyledion hynny sydd angen eu blaenoriaethu. Bydd camau yn cael eu cymryd i adnabod os oes gan y dyledwyr sefyllfa sy'n eu gwneud yn fregus ond nid oes sail y byddai'r polisi yn effeithio yn anghymesur ar unigolion gydag unrhyw un o'r nodweddion penodedig.

#### **Unrhyw ymgynghoriadau a gynhaliwyd cyn gwneud y Penderfyniad :**

Dim

Prif Swyddog Cyllid – Rwyf wedi cynorthwyo'r Aelod Cabinet i baratoi'r adroddiad yma.

Swyddog Monitro – Rwy'n croesawu y Polisi yma sydd yn sefydlu egwyddorion clir ar gyfer ad-ennill arian sydd yn ddyledus i'r Cyngor . Mae'n bragmataidd ac yn cyd fynd a'r dyletswydd darbodus arian cyhoeddus.

Aelod/au Lleol – dim yn fater lleol

# Cyngor Gwynedd

## Polisi Adennill ar gyfer:

- Treth Cyngor
- Ardrethi Annomestig
- Gordaliadau Budd-dal
- Mân Ddyledion



## **1. CYFLWYNIAD A PHWRPAS**

- 1.1. Mae'r ddogfen hon yn manylu ar bolisiâu'r Cyngor ar filio, casglu ac adfer pob arian sy'n ddyledus i'r Cyngor.
- 1.2. Gall symiau sy'n ddyledus i'r Cyngor fod yn gymysgedd o ffioedd statudol ac anstatudol. Mae'r dulliau ar gyfer bilio ac adfer y dyledion statudol yn cael eu rhagnodi'n dynn gan statud.
- 1.3. Mae'r Polisi hwn yn nodi'r egwyddorion a'r dull cyffredinol i'w defnyddio mewn perthynas â rheoli dyledion ar draws yr holl wasanaethau a ddarperir gan y Cyngor. Bydd y dull a amlinellwyd o fudd sylweddol i holl drigolion a threthdalwyr Gwynedd drwy:
  - Annog pob trethdalwr neu gwsmer sy'n cael anawsterau talu i gysylltu â'r Cyngor cyn gynted â phosibl;
  - Lleihau rhwymedigaethau i'r Cyngor lle bynnag y bo'n bosibl;
  - Adnabod cwsmeriaid a allai fod yn agored i niwed; a
  - Darparu ystod gynhwysfawr o gefnogaeth.
- 1.4. Mae manylion llawn polisiâu a gweithdrefnau adfer unigol ar gael gan bob un o adrannau perthnasol y Cyngor ac yn dogfennu'r prosesau unigol a gymerir gan swyddogion y Cyngor pan fydd arian yn ddyledus i'r Cyngor neu pan fo cwsmeriaid yn mynd i ôl-ddyledion.
- 1.5. Mae rheoli incwm yn faes busnes allweddol i'r Cyngor. Mae'r Cyngor yn casglu incwm o sawl ffynhonnell; mae rhywfaint o'r gweithgaredd hwn yn cael ei lywodraethu gan ddeddfwriaeth tra bod eraill yn ôl egwyddorion cadarn rheolaeth ariannol. Yr allwedd i reoli incwm yn economaidd, effeithlon ac effeithiol yw creu a chynnal fframwaith clir sy'n nodi'r dull, nodau, egwyddorion a'r strategaeth y bydd yr holl weithgareddau yn cael eu cynnal ynddynt.
- 1.6. Mae'n hanfodol bod yr holl arian sy'n ddyledus yn cael ei gasglu'n effeithiol gan y Cyngor, a bod yr hyn sy'n ddyledus i'r Cyngor yn cael ei gadw mor isel â phosibl. Mae gan y Cyngor ddyletswydd gyfreithiol a chyfrifoldeb i bobl Gwynedd i sicrhau bod yr incwm sy'n ddyledus yn cael ei dalu'n brydlon. Gall y Cyngor godi llog taliadau hwyr ar ddyledion neu geisio llog/ffioedd yn ystod prosesau adfer lle mae'n gyfreithlon ac yn briodol gwneud hynny.
- 1.7. Mae prosesau rheoli incwm effeithiol yn hanfodol i gyflawni amcanion cyffredinol gwasanaethau'r Cyngor. Mae proses rheoli incwm mwy effeithlon yn cyfrannu at argaeledd adnoddau ar gyfer darpariaeth gwasanaeth ehangach neu ddyfnach.

## **2. AMCANION**

- 2.1. Nod y polisi hwn yw sicrhau trefn o gasglu dyledion mewn modd cyfrifol.
- 2.2. Amcanion allweddol y Polisi Adennill yw:
  - Sicrhau fod y Cyngor yn darparu biliau yn brydlon ac atgoffa pobl yn gyflym os nad ydynt yn talu.
  - Cynnig dulliau talu effeithlon a hyblyg.
  - Annog pobl i gysylltu'n gynnar er mwyn osgoi cronni dyled.
  - Rhoi gwybod i bobl am eu hawl i fudd-daliadau, gostyngiadau ac eithriadau er mwyn uchafu nifer y bobl sy'n manteisio arnynt.
  - Rhoi gwybod i bobl am argaeledd cyffredinol budd-daliadau sy'n gysylltiedig ag incwm, megis Credyd Cynhwysol, Credydau Pensiwn a'r Cynllun Gostyngiad Treth y Cyngor.
  - Cymryd camau cadarnhaol i atal ôl-ddyledion rhag digwydd yn y lle cyntaf.

- Cymryd camau adfer yn erbyn pobl sy'n fwriadol yn osgoi talu eu dyledion neu'r rhai sy'n oedi talu heb reswm dilys tra bob amser yn gweithio i gynorthwyo'r rhai na allant dalu neu sy'n ei chael hi'n anodd talu
- Lle mae pobl wedi syrthio neu'n debygol o syrthio i ôl-ddyledion, mae ymrwymiad i weithio gyda nhw a'u cynrychiolwyr i bennu lefelau talu rhesymol a realistig y gallent eu cynnal, gan sicrhau bod trefniadau talu yn adlewyrchu'r gallu i dalu yn ogystal â lefel y ddyled sy'n ddyledus
- Gweithio mewn dull cydlynol pan fo dyledion lluosog yn ddyledus i'r Cyngor, gan flaenoriaethu lle'n briodol.
- Gweithio mewn partneriaeth ag asiantaethau cynghori cydnabyddedig i gynghori pobl sydd angen help ac arweiniad i ad-dalu dyledion lle gallent dderbyn cyngor annibynnol er mwyn cynorthwyo gyda phroblemau ariannol ehangach.

### 3. EGWYDDORION ADFER

3.1. Bydd unrhyw gamau adfer a gymerir yn gymesur:

- Mae cymesuredd yn sicrhau cydbwysedd rhwng y posibilrwydd o golli incwm sy'n ddyledus i'r Cyngor a chostau cydymffurfio.

3.2. Bydd y dull gweithredu a gymerir yn gyson:

- Mae cysondeb yn golygu cymryd agwedd debyg mewn amgylchiadau tebyg i gyflawni amcanion tebyg. Nod y Cyngor yw cyflawni hyn yn y cyngor a roddir, y defnydd o'i bwerau a'r gweithdrefnau adfer a ddefnyddir. Ar yr un pryd, mae'r Cyngor yn cydnabod yr angen i drin pawb fel unigolion ac felly bydd yn anelu at ystyried llawer o ffactorau amrywiol megis amgylchiadau cymdeithasol yr unigolyn, hanes y taliadau a'u gallu i dalu.

3.3. Bydd y camau a gymerir yn dryloyw:

- Mae tryloywder yn bwysig wrth gynnal hyder y cyhoedd yn y Cyngor. Mae'n golygu helpu pobl i ddeall yr hyn a ddisgwylir ganddynt, i gyflawni eu rhwymedigaethau talu a'r hyn y dylent ei ddisgwyl gan y Cyngor. Mae hefyd yn golygu egluro'n glir y rhesymau dros gymryd unrhyw gamau adfer a'r camau nesaf y gall y Cyngor eu cymryd os na wneir taliad.

3.4. Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i ddefnyddio'r dulliau adfer mwyaf effeithiol sydd ar gael ac mae'r polisi hwn yn sicrhau bod y Cyngor yn cydymffurfio â deddfwriaeth, canllawiau swyddogol ac arfer gorau perthnasol wrth gyflawni'r amcanion canlynol:

- Mae pob dyledwr, trethdalwr a thalwr ardrethi yn cael eu trin yn deg
- Defnydd o arfer gorau yn cael ei fabwysiadu
- Dilynir ymagwedd gydlynol at reoli dyled
- Byddwn yn nodi cymorth priodol a allai'r dyledwr fod ei angen ac yn sicrhau bod amgylchiadau'n cael eu hystyried.

3.5. Mae'r camau a gymerir yn deg ac thryloyw, a ni fydd unrhyw ddyledwr yn derbyn triniaeth lai ffafriol oherwydd eu hil, cenedligrwydd, lliw, tarddiad ethnig neu genedlaethol, cred grefyddol, rhyw, statws priodasol, cyfeiriadedd rhywiol, oedran neu anabled.

3.6. Mae gwahanol fathau o ddyled yn denu gwahanol driniaeth casglu. Rhaid cyfeirio pob bil ac anfoneb a roddir yn gywir at y sawl sy'n atebol i'w dalu.

3.7. Bydd unrhyw ddyled yn cael ei filio cyn gynted ag y bo'n ymarferol gan ystyried unrhyw ofynion deddfwriaethol.

- 3.8. Ar gyfer pob arian sy'n ddyledus, bydd y Cyngor yn defnyddio'r dull mwyaf priodol ac effeithiol o adennill dyledion er mwyn gwneud y mwyaf o gasglu arian parod a lleihau costau.
- 3.9. Lle bo'r potensial am fudd-dal neu ostyngiad statudol yn bodoli mewn perthynas â'r ddyled, gwneir ymdrechion i wneud y dyledwr yn ymwybodol o gyfleoedd o'r fath a byddant yn cael eu cynorthwyo a'u hannog i wneud cais am y rhain.
- 3.10. Mae'r cyngor yn defnyddio pob cyfle i ymgysylltu â dyledwyr a gwneud trefniadau talu 'pwrpasol' gyda chwsmeriaid unigol yn seiliedig ar yr amgylchiadau a'r ddyled sy'n ddyledus. Yn dibynnu ar eu sefyllfa ariannol gyffredinol, gellir cyfeirio chwsmeriaid at wasanaeth cyngor annibynnol ar ddyledion.
- 3.11. Mae'r cyngor yn cydnabod bod camau adfer prydlon yn elfen allweddol ar gyfer rheoli dyled a gwneud y gorau o incwm a bydd yn:
- monitro lefel ac oedran dyled yn rheolaidd
  - gosod targedau clir ar gyfer adennill dyled
  - dilyn y gweithdrefnau adfer yn y polisi hwn
  - gosod blaenoriaethau ar gyfer meysydd penodol o ddyled ac asesu dulliau adfer i sicrhau'r adferiad mwyaf posibl
  - adolygu dyledion na ellir eu hadennill a dyledion dros chwe mis oed bob mis.
- 3.12. Pan ddefnyddir asiantaeth gorfodaeth allanol i ddelio ag adennill dyledion, bydd llif y wybodaeth rhwng y cyngor a'r asiantaeth mewn fformat electronig diogel. Bydd asiantau gorfodi yn cysylltu â dyledwyr fel rhan o broses casglu cyfreithiol.
- 3.13. Pan fydd deddfwriaeth yn caniatáu, bydd y cyngor yn ceisio codi ac adennill gan y dyledwr unrhyw gostau a/neu ffioedd sy'n ddyledus yn gyfreithlon gan y dyledwr i'r Cyngor neu ei asiantau. Dim ond mewn achosion eithriadol, lle na fyddai er budd y cyhoedd i fynd ar drywydd costau a/neu ffioedd, y byddant yn cael eu hepgor.
- 3.14. Mae Polisi Dileu'r Cyngor (Atodiad 4) yn cyd-fynd â Rheolau Gweithdrefn Ariannol y Cyngor ac yn ffurfioli'r weithdrefn ar gyfer dileu dyledion na ellir eu hadennill ar ôl cwblhau'r prosesau adennill dyledion a ddisgrifir yn y polisi hwn.

#### **4. CWMPAS**

- 4.1. Mae'r fframwaith polisi hwn yn berthnasol i gasglu :
- Treth Cyngor ac Ardrethi Annomestig (Atodiad 1)
  - Gordaliad Budd-dal Tai a Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Atodiad 2)
  - Mân Dyledion (Atodiad 3)
- 4.2. Mae rheolau a rheoliadau penodol sy'n llywodraethu adfer a chasglu'r mathau hyn o ddyled – mae'r rhain wedi'u nodi yn yr atodiadau priodol.

#### **5. HIERARCHAETH DYLED**

- 5.1. Bydd gan rhai chwsmeriaid fwy nag un ddyled i'r Cyngor ac efallai eu bod ar incwm isel neu'n profi caledi ariannol. Mewn achosion o'r fath, mae angen bod yn glir pa ddyledion y mae'r Cyngor yn eu hystyried yn flaenoriaeth.
- 5.2. Rhoddir blaenoriaeth i ddyledion lle gallai peidio â thalu arwain at y chwsmers yn colli eu cartref. Mae'r rhain yn ymwneud yn bennaf â Threth Cyngor a Trethi Busnes, sydd yn cael eu gorfodi gan amlaf drwy'r llysoedd yn unol â gofynion statudol.
- 5.3. Gall dyledion eraill sy'n ddyledus i'r Cyngor, yn dibynnu ar yr amgylchiadau, gael eu hystyried i fod yn flaenoriaeth is.

## **6. DULLIAU TALU**

- 6.1. Bydd anfonebau am wasanaethau a ddarperir gan neu ar ran y Cyngor yn cael eu codi cyn i'r gwasanaeth gael ei dderbyn neu cyn gynted â phosibl wedi hynny. Lle bo'n bosibl, bydd taliad yn cael ei dderbyn cyn bydd y gwasanaeth yn cael ei ddarparu. Bydd anfonebau taliadau cylchol yn cael eu cyhoeddi mewn modd amserol er mwyn galluogi talu cyn y dyddiad dyledus.
- 6.2. Bydd y Cyngor yn casglu mân ddyledion yn unol â'r telerau a amlinellir ar yr anfoneb. Mae'r telerau safonol yn berthnasol i bob mân ddyled a godir gan y Cyngor ac ni ddylid gwyro oddi wrthynt oni bai y ceir cymeradwyaeth y Pennaeth Cyllid.
- 6.3. Bydd y tîm Dyledion Corfforaethol yn tynnu telerau talu yn ôl os bydd dyledwr yn methu â cadw at gytundeb talu.
- 6.4. Mae biliau ac anfonebau yn cadarnhau'r ystod lawn o ddulliau talu sydd ar gael ac yn cynnwys gwybodaeth i annog trethdalwyr a dyledwyr i gysylltu â'r Cyngor i drafod anawsterau talu.
- 6.5. Y dull talu a ffefrir gan y Cyngor yw Debyd Uniongyrchol. Fodd bynnag, nid yw hyn yn gwahardd derbyn taliad drwy ddulliau eraill. Ar wahân i Debyd Uniongyrchol, mae'r Cyngor yn derbyn ystod o fathau o daliadau fel sy'n briodol i'r math o ddyled a'r maint.
- 6.6. Mae'r rhain yn cynnwys cardiau credyd a debyd, archebion sefydlog a threfniadau bancio ar-lein. Mae gan y Cyngor rwymedigaeth i atal gwyngalchu arian a nodir yn ei Bolisi Gwrth-Gwyngalchu Arian.

## **7. DILEU DYLEDION**

- 7.1. Mae'r Cyngor yn cydnabod bod dileu dyledion, yn brydlon ac yn rheolaidd, yn arfer da pan na ellir adennill dyled.
- 7.2. Bydd y Cyngor yn ceisio lleihau cost dileu i drethdalwyr lleol drwy gymryd pob cam angenrheidiol i adennill yr hyn sy'n ddyledus. Bydd yr holl ddyledion yn ddarostyngedig i'r holl weithdrefnau casglu, adfer a chyfreithiol fel yr amlinellir yn y polisi hwn.
- 7.3. Mae dileu yn briodol dim ond pan mae'r rhybudd neu'r anfoneb wedi ei godi'n gywir ac yn ddyledus ac mae rheswm dilys pam na ddylid mynd ar drywydd y ddyled.
- 7.4. Nid yw'n bosibl rhestru pob senario a allai wneud dyled yn addas i'w dileu. Fodd bynnag, gallai'r ffactorau canlynol fod yn briodol yn dibynnu ar yr amgylchiadau.
- 7.5. Mae rhai o'r rhesymau dilys dros ddileu yn cynnwys:
  - Mae'r cwsmer yn fethdalwr;
  - Ni ellir olrhain y cwsmer;
  - Mae'r ddyled yn aneconomaidd i'w dilyn, neu i fynd ymhellach ar ei drywydd. Gall hyn fod yn seiliedig ar fwy nag un ffactor, megis swm y ddyled, sefyllfa ariannol y cwsmer a chost amser gweinyddol a swyddogion wrth fynd ar drywydd y ddyled;
  - Mae'r ddyled yn ddyled gytundebol dros 6 oed. O dan Ddeddf Cyfyngiadau 1980, nid yw'n bosibl dwyn achos llys mewn mater cytundebol sydd dros 6 oed. Fodd bynnag, mae eithriadau i'r rheol hon y gallai fod angen eu hystyried;
  - Mae gan y Cyngor dystiolaeth i gadarnhau bod camau adfer yn amhriodol; neu
  - Mae'r cwsmer wedi marw a does dim arian neu ddim digon yn yr ystâd i dalu'r ddyled.
- 7.6. Bydd dyledion anadferadwy yn cael eu cyfeirio at y Pennaeth Cyllid a, lle'n berthnasol, at yr Aelod Cabinet dros Gyllid, yn unol â'r hyn a ddynodir o dan Gynllun Dirprwyo'r Cyngor ar amllder a gytunwyd ymlaen llaw ac mewn fformat y cytunwyd arno ymlaen llaw yn unol â Rheolau Gweithdrefn Ariannol y Cyngor.



7.7. Mae'r Polisi Dileu i'w gael yn Atodiad 4.

## **8. HYFFORDDIANT**

8.1. Rhaid i bob gordaliad gael ei ddynodi'n gywir gan swyddog o'r Cyngor sydd wedi cael hyfforddiant i safon ddigonol i'w galluogi i wneud penderfyniadau a sicrhau bod y gyfraith yn cael ei gweithredu'n gywir yn y broses o wneud penderfyniadau. Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i hyfforddi staff i fod â'r sgiliau angenrheidiol i gyflawni'r polisi hwn.

8.2. Bydd y Cyngor yn ceisio mabwysiadu neu ymgorffori unrhyw raglen hyfforddiant sy'n adlewyrchu unrhyw brotocol cyn-weithredu adfer dyled a gymeradwywyd yn genedlaethol neu brotocolau arfer gorau cydnabyddedig, yn enwedig mewn perthynas â chymhwyso tegwch a chydabod bregusrwydd a chaledi.

8.3. Mae'r holl staff sy'n ymwneud â chasglu ac adfer dyled yn rhan o drefn hyfforddi gylchol sy'n ymgorffori:

- Sgiliau trafod
- Cydnabod bregusrwydd a phroblemau iechyd meddwl;
- Gwasanaeth cwsmeriaid; a
- Cydraddoldeb.

8.4. Yn ogystal â'r hyfforddiant a nodwyd uchod, bydd staff yn derbyn hyfforddiant i'w cefnogi drwy'r newidiadau gweithdrefnol a diwylliannol o ran dull.

## **9. CYNLLUN DIRPRWYO**

9.1. Mae'r Polisi Adennill hwn wedi cael ei gymeradwyo gan yr Aelod Cabinet dros Gyllid yn unol â Chyfansoddiad y Cyngor.

9.2. Mae swyddogion y Cyngor yn gweinyddu'r polisi ac mae'r Rheolwr Trethi, Pennaeth Cyllid Cynorthwyol a'r Pennaeth Cyllid wedi eu hawdurdodi i wneud gwelliannau i sicrhau fod y polisi yn bodloni'r meini prawf a osodwyd gan y Cyngor.

## **10. TWYLL AC OSGOI**

10.1. Ni fydd Cyngor Gwynedd yn goddef twyll neu afreolaidd-dra ariannol, ac mae unrhyw achosion yn cael eu cymryd o ddifri ac yn cael eu hymchwilio. Bydd unrhyw unigolyn sy'n ffugio ei gofnodion neu'n darparu gwybodaeth anghywir mewn ffordd anonest er mwyn gwneud elw ariannol, osgoi taliad dilys neu fel arall yn wynebu erlyniad. Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i adennill arian a dalwyd drwy gamgymeriad, neu drwy gamddefnydd twyllodrus.

10.2. Mae osgoi taliadau treth neu gostau eraill mewn ffordd anghyfreithlon yn lleihau'r adnoddau ariannol sydd ar gael i'r Cyngor ac mae'n cael effaith uniongyrchol ar yr holl drigolion, busnesau a sefydliadau eraill sy'n dibynnu ar wasanaethau'r Cyngor.

10.3. Ni oddefir efasiwn anghyfreithlon neu dwyll i osgoi talu dyled, a phan adnabyddir achosion o hyn, bydd y Cyngor, yn ogystal â chymryd camau i orfodi taliad, yn ceisio gosod cosbau neu sancsiynau pellach lle mae ar gael yn ôl y gyfraith. Gall hyn gynnwys erlyn am droseddau o'r fath.

10.4. Pan fydd y gweithgaredd hwn yn effeithio ar gyrff cyhoeddus eraill, megis yr Adran Gwaith a Phensiynau, Cyllid a Thollau EF ac awdurdodau eraill, bydd y Cyngor yn gweithio gyda'r sefydliadau hynny i geisio rhwymedi cyfreithiol.

10.5. Pan fydd dyledion yn codi drwy efasiwn neu dwyll, bydd y Cyngor yn ceisio adennill taliad yn llawn cyn gynted ag y bydd y gyfraith ynghylch natur y ddyled yn caniatáu.

- 10.6. Lle bo'n briodol, bydd y Cyngor yn cyfeirio materion at yr Heddlu ar gyfer ymchwiliad troseddol. Mae'r Cyngor hefyd wedi ymrwymo i gefnogi unrhyw ymchwiliad a gychwynwyd gan yr Heddlu yn llawn, naill ai mewn ymateb i atgyfeiriad neu'n annibynnol.
- 10.7. Bydd y wybodaeth bersonol mae'r Cyngor yn ei gasglu yn cael ei rhannu ag asiantaethau atal twyll a fydd yn ei defnyddio i atal twyll a gwyngalchu arian ac i wirio hunaniaeth. Mae Cyngor Gwynedd yn cymryd rhan yn y Fenter Twyll Genedlaethol: [Paru data \(llyw.cymru\)](#).
- 10.8. Mae rhagor o fanylion am sut y bydd eich gwybodaeth yn cael ei defnyddio gennym ni a'r asiantaethau atal twyll hyn, â hawliau diogelu data unigolion i'w cael ar wefan Cyngor Gwynedd, yma: [Diogelu data \(llyw.cymru\)](#).

## **11. DEFNYDDIO DATA**

- 11.1. Bydd y Cyngor yn casglu ac yn storio data personol at ddibenion bilio, casglu ac adfer symiau sy'n ddyledus yn effeithiol. Bydd data a gedwir at y diben hwn yn cael ei brosesu yn unol â Deddf Diogelu Data 2018 a'i storio'n ddiogel bob amser.
- 11.2. Mae'r Cyngor wedi ymrwymo'n llwyr i gefnogi'r defnydd o baru data i nodi twyll a chamgymeriadau posibl. Bydd data'n cael ei rannu gydag asiantau neu gontractwyr a benodir gan y Cyngor at ddibenion bilio, casglu ac adfer symiau sy'n ddyledus. Gellir rhannu data hefyd o fewn y Cyngor neu gyda sefydliadau allanol lle mae'r gyfraith yn caniatáu, yn enwedig lle mae er budd y dyledwr neu lle bydd yn atal twyll neu osgoi talu symiau sy'n ddyledus yn anghyfreithlon. Mae rhagor o fanylion gan gynnwys datganiadau preifatrwydd i'w gweld ar wefan Cyngor Gwynedd: [Diogelu data \(llyw.cymru\)](#).

## **12. CWYNION AC ANGHYDFODAU**

- 12.1. Dylai unrhyw anghydfodau a godir ynghylch defnyddio'r polisi hwn, yn y lle cyntaf, gael eu codi gyda gwasanaeth perthnasol y Cyngor. Os na ellir datrys yr anghydfod, yna bydd yn cael ei drin yn unol â Gweithdrefn Gwynion y Cyngor.
- 12.2. Ymdrinnir ag unrhyw anghydfod ynghylch dyled unigol yn unol â gofyniad cyfreithiol casglu'r ddyled honno. Bydd unrhyw anghydfod o'r fath ond yn atal parhad y broses adfer neu'r mecanwaith cyfreithiol os yw'n briodol yng nghyd-destun y ddeddfwriaeth benodol.
- 12.3. Yn unol â Threfn Gwynion Cyngor Gwynedd, anelir i ddatrys cwynion yn anffurfiol ac os na fydd hynny llwyddiannus dylid cyflwyno cais ffurfiol i'r Cyngor trwy:
- Lenwi'r ffurflen ar wefan y Cyngor: [Cwyn ffurfiol / Canmoliaeth \(llyw.cymru\)](#)
  - Ffonio 01766 771000
  - Ysgrifennu at: Swyddog Gwella Gwasanaeth, Cefnogaeth Gorfforaethol, Cyngor Gwynedd, Stryd y Jêl, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1SH

### 1 CYFLWYNIAD

Mae'r polisi yn llunio ac esbonio sut fydd y Gwasanaeth Trethi yn gweinyddu trethi lleol drwy'r broses bilio, casglu arian ac adennill dan ddeddfau

- Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988
- Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992.

Mae'r Atodiad yma yn darparu manylion am y broses bilio ac adennill, fel fod y broses yn glir ac yn rhwydd i'w dilyn. Fe fydd y ffocws ar y llwybr gwaith yn hytrach na astudiaeth fanwl o'r ddeddfwriaeth.

### 2 Y BROSES BILIO

#### 2.1 Cynnwys Biliau

Mae anfon bil cywir ac amserol yn ddull effeithiol o gyfleu gwybodaeth i drethdalwyr am eu cyfrifoldeb am dalu Treth Cyngor / Trethi Annomestig. I'r perwyl hwn, bydd y Gwasanaeth Trethi yn sicrhau fod gohebiaeth yn glir ac eglur ond eto yn gryno, gan osod yr wybodaeth statudol angenrheidiol, gan ffocysu ar y prif ffeithiau perthnasol a chyfleu'r wybodaeth mewn iaith ddealladwy. Ar gefn y bil bydd gwybodaeth am fanylion perthnasol pellach sydd yn cyfeirio'r trethdalwr i safle we'r Cyngor i geisio manylion llawn.

Bydd manylion sut i wneud cyswllt gyda'r Gwasanaeth Trethi yn glir gan gynnwys rhif ffôn, cyfeiriad post, cyfeiriad e-bost, gwefan, a chyfeiriad y swyddfa.

Bydd cyfeiriad ar pob ohebiaeth sy'n amlygu gwefan y Cyngor ble fydd manylion

- Eithriadau
- Disgownts
- Rhyddhad
- Sut i gyflwyno apêl (mewnol ac allanol)
- Sut i gyflwyno cwyn (mewnol ac allanol)
- Manylion Gwarchod Data perthnasol
- Manylion Gosod Treth Cyngor blynyddol / Manylion lluosydd Trethi Annomestig.
- Cyllideb y Cyngor
- Gwahoddiad i drafod rhandaliadau.

Fel arall, gall y gwasanaeth yrru manylion perthnasol drwy'r post lle bo cais am hynny.

Caiff Band Treth Cyngor neu Gwerth Ardrethol Trethi Annomestig eu gosod gan Asiant Swyddfa'r Prisiwr. Bydd gwefan y Cyngor yn nodi manylion cyswllt Swyddfa'r Prisiwr.

Fe fydd polisiâu ar Eithriadau, Disgownts a Rhyddhad yn cael eu hadolygu'n gyson, o leiaf pob dwy flynedd. Lle'n bosib, bydd y Cyngor yn awtomeiddio gwirio rhai eithriadau a disgownt drwy ddefnyddio asiantaethau allanol i baru data a ffynonellau data mewnol ac allanol

## 2.2 Diweddarau Gwybodaeth a Gweinyddiaeth

Mae'n parhau'n ddyletswydd ar bob trethdalwr Treth Cyngor i rybuddio'r Cyngor, yn ysgrifenedig, o fewn 21 niwrnod o unrhyw newidiadau perthnasol a all effeithio ar ei fil Treth Cyngor.

Bydd y Cyngor yn cyflogi a hyfforddi staff i brosesu ceisiadau ac i ateb ymholiadau trethdalwyr. Bydd swyddogion yn ffocysu ar brosesu ceisiadau ond hefyd i annog trethdalwyr i geisio am eithriadau, rhyddhad a disgownt ble yn berthnasol. Os fydd trethdalwr ar ôl gyda taliadau fe fydd swyddogion yn ceisio dod i drefniant rhesymol, yn ddelfrydol i glirio unrhyw ôl ddyled cyn diwedd y flwyddyn ariannol. Os nad yw hyn yn bosib neu os yw'r trethdalwr mewn trafferthion ariannol, neu angen cyngor fe fydd y swyddog yn cyfeirio'r person ymlaen i wasanaeth perthnasol y Cyngor neu i asiantaeth allanol (CAB, Money Helper).

Mae Treth Cyngor a Trethi Annomestig yn daladwy am flwyddyn ariannol, sef o'r 1af o Ebrill hyd 31ain o Fawrth y flwyddyn nesaf. Fe anfonir bil blynyddol 14 niwrnod cyn i'r rhandaliad cyntaf ddod yn ddyledus.

Yn statudol roedd trefn hanesyddol i rhandaliadau ymestyn dros gyfnod o ddeg mis ond mae'r hawl yma bellach yn ymestyn dros 12 mis. Os na wneir cais gan y trethdalwr i addasu'r hyn sydd yn daladwy fe fydd rhandaliadau yn cael ei gosod dros 10 mis gyda rhandaliadau yn ddyledus ar gychwyn y mis.

Wrth i'r flwyddyn fynd heibio fe fydd nifer o fisoedd sydd ar gael i rannu rhandaliadau yn lleihau. Eto fe osodir yr hyn sydd i dalu o'r mis 'presennol' hyd ddiwedd Ionawr, neu os oes achos amlwg hyd fis Mawrth. Os bydd swm taladwy yn codi wedi Ionawr ni fydd rhandaliadau yn cael eu cynnig a bydd y swm cyfan yn daladwy o fewn mis. Nid yw hyn yn atal trethdalwr rhag cysylltu gyda swyddogion i drafod opsiynau talu a chytundeb rhesymol.

Ble mae mwy na un person yn gyfrifol am fil Treth Cyngor fe eglurir yn glir yr egwyddor trethiant 'cyfrifoldeb ar y cyd' (*joint and several liability*). Mae pawb yn gyfrifol am y swm cyfan ac nid am ran o'r taliad – mater i'r unigolion cyfrifol yw sut fydd y bil i'w dalu ac yn anaml bydd y Cyngor yn ymyrryd yn hyn. Os bydd achos adennill gellir cymryd camau yn erbyn pawb a enwir ar y bil.

Os fydd trethdalwr yn anfodlon â phenderfyniad y Cyngor i'w ddal yn gyfrifol am dalu Treth Cyngor yna mae hawl i gyflwyno apêl mewnol. Os na allwn ddod i gytundeb yna mae hawl bellach i'r trethdalwr gyflwyno apêl i'r Gwasanaeth Tribiwnlys Prisio ar gyfer Cymru.

## 3 Y BROSES ADENNILL

### 3.1 Gofynion talu

Drwy yrru gohebiaeth ar amser, i'r cyfeiriad olaf sydd wedi ei roi gan y trethdalwr, yn unol â rheolau Treth Cyngor / Trethi Annomestig mae'r Cyngor wedi cyflwyno'r dogfennau yn briodol. Nid oes gofyn ar y Cyngor i ddangos fod unrhyw lythyr, bil, nodyn atgoffa na gwŷs wedi cyrraedd. Fe yrrir pob gohebiaeth mewn amlen sy'n arddangos cyfeiriad perthnasol gall y Post Brenhinol ddychwelyd yr amlen iddo os na fydd yn cyrraedd pen ei daith.

Mae Treth Cyngor a Threthi Annomestig yn drethi statudol felly fe ddylai trethdalwyr ddelio yn briodol gyda'r swm perthnasol pan yn trefnu ei faterion ariannol.

Mae tri modd i dalu bil Treth Cyngor / Trethi Annomestig:

- Yn llawn o fewn 28 niwrnod i dderbyn y bil
- Mewn rhandaliadau fel sydd wedi ei osod ar y bil
- Mewn rhandaliadau sydd yn clirio'r ddyled cyn diwedd y flwyddyn ariannol, wedi ei drefnu gyda'r Cyngor cyn i'r rhandaliad cyntaf ddod yn ddyledus.

Os na fydd yr uchod yn cael ei ddilyn a bydd mis yn mynd heibio heb i'r isafswm perthnasol, sef rhandaliad, gael ei dderbyn yna fe fydd y Cyngor yn cychwyn y broses adennill.

Fe fydd y Cyngor yn trefnu rhaglen adennill am y flwyddyn, gan gyhoeddi nodiadau atgoffa, nodiadau terfynol, gwŷs, gwaith adennill ôl Gorchymyn Cyfrifoldeb mewn da bryd i roi'r amser hiraf i drethdalwyr geisio eithriad / disgownt / rhyddhad, wneud trefniant talu neu gyflwyno apêl. Anogir trethdalwyr i gysylltu gyda'r Cyngor mor fuan â phosib os oes trafferthion talu.

### **3.2 Nodiadau Atgoffa**

Os na fydd taliadau yn cychwyn yn unol ag un o'r tri dewis sydd ar gael, bydd y Cyngor yn dilyn y drefn adennill statudol.

Tra fod deddfwriaeth yn caniatáu i'r Cyngor yrru Nodyn Atgoffa unwaith fod taliad heb ei dderbyn erbyn y dyddiad dyledus fe fyddwn yn caniatáu 12 diwrnod cyn gyrru Nodyn Atgoffa wedi i rhandaliad (neu swm cyfan) ddod yn ddyledus.

Pan fydd rhandaliad yn cael ei fethu am y tro cyntaf fydd fe anfonir Nodyn Atgoffa sy'n gosod allan manylion y rhandaliad sydd wedi ei fethu, y swm sydd i'w dalu ac erbyn pryd rhaid talu'r swm i warchod yr hawl i dalu mewn rhandaliadau. Bydd y Nodyn Atgoffa hefyd yn amlygu yr hyn fydd yn digwydd os nad yw'r dreth am weddill y flwyddyn yn cael ei thalu, sef fod modd i'r Cyngor gychwyn camau cyfreithiol.

Os na fydd y swm dyledus yn cael ei dalu yna mae'r cyfrif yn symud ymlaen i'r broses Rhybudd Terfynol.

Os yw'r rhandaliadau yn cael eu cadw'n ddiweddar yna mae'r hawl statudol i dalu trwy rhandaliadau yn cael ei chadw.

Pan fydd rhandaliad pellach yn ystod y flwyddyn yn hwyr yna fe fydd Ail Nodyn Atgoffa yn cael ei gyhoeddi. Eto, bydd y swm sydd ddim wedi ei dalu – ac erbyn pryd mae angen ei dalu – yn cael ei nodi'n glir ar y Nodyn Atgoffa. Ond yn wahanol i'r Nodyn Atgoffa Cyntaf, bydd datganiad pellach mai hwn yw'r cyfle olaf i daliad fod yn hwyr ac os fydd methiant pellach bydd yr hawl i dalu mewn rhandaliadau yn cael ei golli gyda'r swm cyfan yn dod yn daladwy. Os na fydd taliadau yn cael eu gwneud yn ôl y gofyn yna fe fydd y cyfrif yn symud ymlaen i'r drefn Rhybudd Terfynol.

Mewn amgylchiadau lle nad oes modd cynnig rhandaliadau statudol gan nad yw'r swm i'w dalu wedi cael ei dderbyn yna fe fydd Nodyn Atgoffa a Rhybudd Terfynol pwrpasol yn cael eu defnyddio.

### **3.3 Rhybudd Terfynol**

Pan nad yw'r trethdalwr wedi talu'r hyn sydd yn ofynnol, cyn i'r Cyngor ystyried trefnu gwŷs bydd Rhybudd Terfynol yn cael ei yrru. Bydd y Rhybudd yn datgan y swm sydd i'w dalu, y cyfnod perthnasol, fod y swm i'w dalu ar unwaith, a'r hyn fydd yn digwydd os nad yw'r swm yn cael ei dalu.

Mae gwahoddiad ar bob Nodyn Atgoffa a Rhybudd Terfynol i'r trethdalwyr gysylltu gyda'r Cyngor i drafod yr achos ac i ddod i drefniant rhesymol. Hefyd mae cyfeiriad i wefan y Cyngor lle ceir mwy o wybodaeth sut mae'r swm yn cael ei gyfrifo a manylion cyswllt Cyngor ar Bopeth er mwyn cael cyngor annibynnol.

Bydd canlyniadau peidio talu neu ddiffyg cyswllt gyda'r Cyngor wedi cael eu gosod allan, sef fod hawl statudol gan y Cyngor i gymryd camau cyfreithiol i geisio Gorchymyn Dyled gan y Llys Ynadon a bydd costau pellach yn syrthio ar y trethdalwr os bydd angen gweithredu ymhellach.

### **3.4 Gwŷs**

Os nad yw taliadau yn cael ei gwneud yn ôl y gofyn ac mae swm yn or-ddyledus yna wedi o leiaf 14 diwrnod o gyhoeddi unrhyw Rhybudd Terfynol fe fydd yr opsiwn gan y Cyngor i ofyn wrth y Llys Ynadon gymeradwyo cais y Cyngor am Orchymyn Dyled.

Unwaith bydd Clerc Llys yr Ynadon wedi rhoi caniatâd ysgrifenedig i'r Cyngor drefnu gwrandawriad bydd y Cyngor yn dilyn y drefn statudol o yrru gwŷs i'r trethdalwr.

Mae'r costau sydd ynghlwm a gyrru gwŷs yn statudol yng Nghymru, sef £70. Serch hyn, pan fydd y Cyngor yn gwneud cais am Orchymyn Dyled bydd datganiad o wariant Y Cyngor yn cael ei gyflwyno i'r Llys yn cefnogi fod costau perthnasol yn gysylltiedig â chynhyrchu'r wŷs a gweinyddu'r achos.

Fe anfonir pob gwŷs drwy'r Post Brenhinol mewn amlen dosbarth cyntaf a bydd cyfeiriad y Cyngor ar gefn yr amlen fel fod modd dychwelyd gwŷs nad oes modd ei gyflwyno i'r trethdalwr. Nid yw gwŷs yn cael ei gyrru drwy'r drefn post gofrestredig oherwydd gall trethdalwr ddewis gwrthod derbyn yr wŷs. Gan fod dyletswydd statudol ar drethdalwyr, unwaith fod bil cywir wedi cael ei gyflwyno, i roi gwybodaeth ysgrifenedig i'r Cyngor os oes newid cyfeiriad mae gwŷs wedi ei gyrru yn gywir os yw'r cael ei gyrru i'r cyfeiriad olaf sydd wedi ei roi gan y trethdalwr ac nid yw'r Post Brenhinol yn ei dychwelyd i'r Cyngor.

Os nad yw'r wŷs wedi ei derbyn, a'r amlen yn cael ei dychwelyd heb ei agor i swyddfa'r Cyngor, ni ellir parhau â'r achos llys a bydd rhaid ystyried y camau nesaf sydd i'w cymryd.

Bydd yr wŷs yn datgan mae gwŷs gyfreithiol yw, a bydd y Llys yn cynnal gwrandawriad i wrando ar gais gan y Cyngor am Orchymyn Dyled parthed ôl ddyledion trethi lleol. Bydd dyddiad, amser a lleoliad y Llys yn cael ei ddatgan yn glir ar flaen yr wŷs. Er mai'r Llys sydd yn cyhoeddi'r wŷs, y Cyngor sydd yn cynhyrchu, argraffu a phostio'r wŷs felly manylion cyswllt y Cyngor sydd ar yr wŷs os yw trethdalwr am wneud ymholiad.

Hefyd ar flaen yr wŷs mae cyfeiriad y ddyled, swm dyledus, cyfnod o gyfrifoldeb ac unrhyw gostau sydd yn cael ei hawlio.

Mae'r costau cyfreithiol £70 yn cael ei hawlio am yrru'r wŷs, gan mai dyna ble mae pwysau costau am weithredu a gweinyddu'r drefn adennill. Ni fydd y costau yn cael eu dileu os bydd y dreth ddyledus yn cael ei thalu ar y pwynt yma.

Mae manylion cyswllt llawn a chyfeiriad gwefan y Cyngor ar gefn yr wŷs yn ogystal â manylion cyswllt Cyngor ar Bopeth os yw trethdalwr am geisio cyngor cyfreithiol ond ddim â'r modd i dalu cyfreithiwr.

Nid oes rhaid i'r trethdalwyr fynychu'r Llys, mae'r mwyafrif helaeth yn dewis peidio bod yn bresennol.

Tra fod hawl i'r trethdalwr fynd gerbron y Llys heb drafod gyda'r Cyngor, mae'r Llys yn gweld budd i'r ddwy ochor drafod cyn cynnal gwrandawriad.

Fe fydd swyddogion o'r Cyngor ar gael cyn y gwrandawriad i drafod gyda trethdalwyr i weld os oes angen parhau gyda'r achos neu os oes modd dod i drefniant i osgoi gweithred a chostau pellach.

Bydd pob ymdrech yn cael ei gwneud i geisio datrys achos cyn fod angen gwrandawriad o flaen y Llys.

Mae'r dystiolaeth sydd rhaid i'r Cyngor ei phrofi yn eithaf sylweddol. Hynny yw, fod y dreth wedi ei gosod yn gywir, fod gwybodaeth wedi ei rhannu yn y wasg, fod bil, nodyn atgoffa a gwys wedi eu gyrru a'r cyfnod amser rhwng y camau yn ddigonol, tystysgrif fod yr cyfrifiadur yn gweithio yn gywir, dadansoddiad o gostau'r Cyngor a rhestr o'r achosion unigol gyda'r manylion ar yr wys wedi eu diweddarau.

Ni all trethdalwr godi unrhyw fater sydd dan hawl apêl i'r Tribiwnlys Prisio fel amddiffyniad ac mae gofyn talu yr hyn sydd ar y bil yn y cyfamser, hyd yn oed os oes bwriad cyflwyno apêl i'r Tribiwnlys. Nid dyma yw'r sefyllfa premiwm ar eiddo gwag hirdymor ac ail gartrefi; yn yr achosion hynny nid oes rhaid talu'r premiwm os oes apêl swyddogol wedi ei derbyn gan y Tribiwnlys.

Os nad oes amddiffyniad gan y trethdalwr yna rhaid i'r Ynadon wneud Gorchymyn Dyled, nid yw hyn yn ddewisol.

### **3.5 Rhybudd o Orchymyn Dyled a Cais Statudol am wybodaeth.**

Mae Gorchymyn Dyled yn rhoi hawl i'r Cyngor gymryd camau pellach yn erbyn y trethdalwr, nid yn unig i gasglu'r ddyled ond hefyd i gasglu gwybodaeth fydd o gymorth wrth gasglu'r swm.

Pan fydd Gorchymyn Dyled wedi ei wneud gan y Llys Ynadon fydd y Cyngor yn rhoi gwybodaeth i'r trethdalwr o'r penderfyniad. Gyda'r rhybudd bydd cais statudol am wybodaeth bellach:

- Manylion gwaith a chyflog yr unigolyn
- Manylion budd dal
- Cyfle i dalu'r swm.

### **3.6 Gorchymyn Atafael Enillion**

Os bydd manylion cyflog trethdalwr ar gael fe fydd y Cyngor yn gweithredu Gorchymyn Atafael Enillion. Yn yr achosion hynny, bydd canran o incwm y trethdalwr yn cael ei gasglu gan gyflogwr y trethdalwr a'i dalu drosodd i'r Cyngor. Nid yw'r opsiwn yma ar gael i'r hunan gyflogedig.

Yn achos ôl-ddyledion Aelodau Etholedig, gall y Cyngor gasglu'r arian o'i daliadau i'r cynghorwyr hynny.

### **3.7 Gorchymyn Atafael Budd-dal**

Rhaid gwneud cais i Adran Gwaith a Phensiynau Llywodraeth y DU i swm penodedig gael ei gasglu o fudd-dal trethdalwr. Nid oes modd ceisio'r arian yma o bob budd-dal, dim ond o Gredyd Cynhwysol a'r budd daliadau hynny sy'n gysylltiedig â cheisio am waith.

### **3.8 Asiant Gorfodaeth (Beili)**

Yn unol â'r *Taking Control of Goods Regulations 2013*, os na fydd trethdalwr yn talu'r swm dyledus neu cysylltu gyda'r Cyngor yna o fewn 28 diwrnod gall yr achos gael ei drosglwyddo i'r Asiant Gorfodaeth.

Mae Cyngor Gwynedd yn defnyddio cwmni allanol..

Bydd rhybudd clir yn cael ei anfon drwy'r post i'r trethdalwr, cyn trosglwyddo'r achos i gael ei gasglu, gan nodi fod yr ddyled ar fin cael ei drosglwyddo. Bydd y rhybudd yn nodi pa gwmni fydd yn cael ei defnyddio a beth fydd y costau ynghlwm â pob cam gweithredol.

Os nad oes taliad neu ymateb yna fe fydd yr achosion yn cael ei trosglwyddo i'r Asiant Gorfodaeth yn unol â'r weithdrefn Asiant Gorfodaeth rhwng y cwmni a'r Cyngor.

Cam Cydymffurfio – bydd yr Asiant Gorfodaeth yn anfon llythyr ar gost o £75 yn rhybuddio'r trethdalwr fod Gorchymyn Dyled wedi ei gyhoeddi ac fod angen gwneud taliad neu i gysylltu gyda'r cwmni i drafod sut i dalu. Bydd y llythyr hefyd yn datgan beth fydd yn digwydd os na thelir y swm, yn enwedig beth fydd y costau pellach.

Cam Gorfodi – Os na fydd yr asiant yn derbyn taliad neu gyswllt o fewn o leiaf 10 diwrnod yna fe all asiant gorfodi ymweld â'r trethdalwr i gasglu'r arian. Os bydd rhaid i'r Asiant ymweld â'r trethdalwr mae un ffi o £235 a 7.5% o unrhyw swm orddyledus dros £1,500.

Tra fydd yr asiant yn holi am amgylchiadau'r trethdalwr i geisio dod i gytundeb os nad yw'r swm yn cael ei dalu yn llawn neu fod yr trethdalwr yn gwrthod talu fe all yr asiant, os yw'n darganfod nwyddau o werth, osod Cytundeb i Reoli Nwyddau. Os na fydd telerau unrhyw gytundeb neu ddyddiad perthnasol i dalu yn cael eu cadw fe all yr asiant casglu ddychwelyd a trosglwyddo'r nwyddau i le lle gall yr eitemau gael eu gwerthu i glirio'r ôl ddyled a chostau.

Cam Gorfodi a Gwerthiant – pan fydd asiant yn gorfod casglu nwyddau i glirio'r ôl ddyled mae cost o £110 a 7.5% ar unrhyw swm dros £1,500.

Gall yr Asiant Gorfodaeth fod o'r farn nad yw'r nwyddau sydd ar gael yn ddigonol i glirio'r ddyled nac o werth mewn ocsiwn a bydd pob achos sydd yn cyrraedd y pwynt yma yn cael ei ddychwelyd i'r Cyngor heb ei dalu.

Ni fydd y Cyngor yn talu unrhyw gostau asiant casglu.

### **3.9 Camau Pellach**

**Traddodi** – tra fod traddodi yn parhau yn ddewis ar gyfer gwrthod talu Trethi Annomestig, mae'r hawl i garcharu trethdalwyr am beidio talu Treth Cyngor wedi ei ddileu yn Nghymru.

Mae'r opsiynau sydd yn weddill yn ddifrifol ei natur ac yn ymwneud â chostau uchel a ddylid ond eu defnyddio os yw'r trethdalwr yn llwyr wrthod talu ac fod gweithred y Cyngor at y bwrpas o olrhain y ddyled. Ni ddylid cychwyn achos lle nad oes ecwiti mewn eiddo neu fod y modd i dalu ddim gan y trethdalwr, gan byddai'r Cyngor yn mynd i gostau sylweddol heb unrhyw obaith o dderbyn taliad.

Tra fod pob cam adennill yn ddifrifol rhaid nodi fod yr isod yn gallu cael effaith gwibwl negyddol ar fywyd unigolyn a rhaid pwysu a mesur gwerth cynnal achos.

**Gorchymyn Arwystl ('Charging Order')**. Os yw'r ddyled dros £5,000 mae opsiwn gan y Cyngor i wneud cais i'r Llys Sirol osod Gorchymyn Arwystl ar eiddo'r trethdalwr. Os na fydd y swm dyledus yn cael ei dalu yna fe fydd cais pellach yn cael ei wneud i orfodi gwerthiant yr eiddo i dalu'r swm dyledus i'r Cyngor.

**Methdalwr** – Os yw dyled dros £5,000 yna fe all Y Cyngor wneud cais i'r Llys Sirol wneud gorchymyn methdal yn erbyn trethdalwr.

## **4. DILEU**



Os yw dyled yn anadferadwy yna mae'r Cyngor yn cydnabod fod angen dileu y swm. Tra fydd rhai camau dileu yn statudol (methdalwyr, gorchymyn rhyddhau o ddyled (DRO)) mae eraill oherwydd amgylchiadau personol (marwolaeth, amgylchiadau arbennig) neu ffactorau perthnasol eraill (wedi gadael, anadferadwy).

Mae gofyn i unrhyw ddileu fod yn unol â pholisi dileu swyddogol y Cyngor ac wedi ei awdurdodi yn ôl y gofyn, ran amlaf cyn i'r swm gael ei dileu ar ein cofnodion.

Mae mwy o wybodaeth ar y drefn ddileu yn y Polisi Dileu sydd yn Atodiad 4.

### 1 CYFLWYNIAD

Mae gordaliadau Budd-dal Tai a Gostyngiad Treth Cyngor yn cael eu sefydlu drwy newid mewn hawl i fudd-daliadau. Fe'u disgrifir fel swm o fudd-dal sydd wedi'i ddyfarnu ond nad oes hawl iddo o dan y rheoliadau.

Mae nodi gordaliadau yn gywir ac yn brydlon yn bwysig er mwyn sicrhau bod y taliad anghywir o fudd-dal yn dod i ben ac i wneud y mwyaf o'r siawns o adferiad llwyddiannus.

Mae'r Cyngor yn cydnabod yr angen i isafu'r golled i gronfeydd cyhoeddus, ond rhaid cymryd camau teg wrth weinyddu gordaliadau Budd-dal Tai a Gostyngiad Treth y Cyngor.

Mae'r Polisi yn adlewyrchu'r arfer gorau yn y weithdrefn ar gyfer delio â gweinyddu ac adfer gordaliadau Budd-dal Tai a Gostyngiad Treth y Cyngor.

Bydd y polisi yn cael ei gymhwyso ym mhob achos lle mae gordaliad budd-dal wedi digwydd, hynny yw, unrhyw swm o Fudd-dal Tai neu Ostyngiad Treth Cyngor sydd wedi'i dalu ond nad oedd hawl iddo pa un ai ar benderfyniad cychwynnol neu ar benderfyniad diwygiedig.

Wrth ymgymryd â'r fframwaith polisi hwn, bydd y Cyngor yn:

- Cymryd camau i leihau ac atal gordaliadau rhag digwydd
- Nodi'r gordaliad yn brydlon
- Atal y gordaliad rhag parhau
- Dosbarthu'r gordaliad yn gywir
- Penderfynu a yw'r gordaliad yn adenilladwy ac a ellir ei adennill
- Penderfynu gan bwy i adennill
- Penderfynu ar y dull mwyaf priodol o adfer
- Hysbysu'r hawlydd ac unigolion eraill yr effeithir arnynt am y penderfyniad.

Yn y rhan fwyaf o achosion gall gordaliadau godi o ganlyniad i:

- Datgelu newid mewn amgylchiadau yn hwyr
- Gwallau a wneir gan yr hawlydd wrth gwblhau ffurflen gais neu ffurflen adolygu
- Camgymeriadau swyddogol a wnaed gan y Cyngor neu'r Adran Gwaith a Phensiynau
- Twyll bwriadol

### 2 ATAL GORDALIADAU

Mae gordaliadau yn aml yn anodd ac yn cymryd llawer o amser i'w gweinyddu. Maent yn gallu achosi anawsterau i hawlwyr a'u teuluoedd wrth iddynt geisio ymdopi ar gyfyng incymau. Dylid eu hosgoi lle bo hynny'n bosibl. Bydd hyn yn cael ei gyflawni drwy:

- Dweud wrth hawlwyr sut i osgoi gordaliadau, gyda llythyrau, mewn taflenni ac yn ystod cyfathrebiadau llafar
- Annog hawlwyr i gadw mewn cysylltiad â ni
- Prosesu gwybodaeth yn gyflym ac yn gywir i leihau gordaliadau

### **3 NODI GORDALIADAU**

Bydd y Cyngor yn anelu at weithredu ar unrhyw wybodaeth a dderbynnir mewn perthynas â newid mewn amgylchiadau hawlwr o fewn saith diwrnod ar ôl cael digon o wybodaeth i nodi bod gordaliad wedi digwydd neu y bydd yn digwydd.

Bydd y weithred hon yn y lle cyntaf yn cynnwys atal rhagor o daliadau budd-dal anghywir.

Bydd y Cyngor yn ymdrechu i nodi unrhyw newid mewn amgylchiadau a fyddai'n arwain at ordaliad sy'n dal heb ei dalu ar ôl saith diwrnod drwy gynnal gwiriadau priodol er mwyn sicrhau fod yr wybodaeth a ddelir gan y Cyngor mor ddiweddar â phosib.

### **4 DOSBARTHIAD GORDALIADAU**

Mae'r dosbarthiad cywir o ordaliadau yn hanfodol oherwydd, yn dibynnu ar y math o ordaliad, bydd yr awdurdod yn derbyn canran o'r gordaliad yn ôl gan y llywodraeth drwy gymhorthdal.

Rhaid i bob gordaliad gael ei ddsbarthu'n gywir gan Swyddog o'r Cyngor sy'n wedi cael hyfforddiant i safon ddigonol i'w galluogi i wneud penderfyniadau, sy'n sicrhau bod y gyfraith yn cael ei gweithredu'n gywir yn y broses o wneud penderfyniadau.

### **5 CYFRIFO GORDALIADAU**

Pan fo gordaliad wedi digwydd, rhaid i'r Cyngor wahodd hawlwr i darparu digon o wybodaeth er mwyn i'r Cyngor allu sefydlu unrhyw hawl sylfaenol ("*underlying entitlement*") i fudd-dal ar gyfer y cyfnod gordalu sydd i'w asesu.

Dylid adennill swm llawn y gordaliad oni bai bod amgylchiadau iechyd neu ariannol y person y ceisir adferiad ohono yn awgrymu y byddai swm llai yn briodol.

Ym mhob achos, dylid adennill y gordaliad cyn gynted â phosibl.

### **6 LLYTHYRAU HYSBYSU**

Rhaid i bob llythyr hysbysu gael ei ddyddio a'i roi i'r holl bersonau yr effeithir arnynt o fewn 14 diwrnod ar ôl i'r Cyngor wneud y penderfyniad.

Rhaid i'r hysbysiad gynnwys y rhesymau dros y penderfyniad, yr hawl i ofyn am ddatganiad pellach a'r terfyn amser ar gyfer gwneud hynny a hawl apêl yr hawliwr a'r terfyn amser ar gyfer gwneud hynny.

### **7 PENDERFYNIADAU AR ADENILLADWYEDD**

Ym mhob achos lle mae gordaliad wedi codi, dylai'r Cyngor ystyried os mai gwall swyddogol wedi achosi'r gordaliad neu wedi cyfrannu ato.

Pan fo'r Cyngor wedi nodi gordaliad, a achoswyd neu a gyfrannwyd ato gan wall swyddogol, dylai benderfynu a yw adennill y gordaliad yn briodol o dan y canllawiau a gyhoeddwyd gan yr Adran Gwaith a Phensiynau.

Cyn i'r camau adfer ddechrau rhoddir ystyriaeth i pwy yw'r personau mwyaf priodol i adennill y gordaliad ganddynt. Gall hyn olygu mewn rhai achosion bod angen gwybodaeth bellach gan y partïon yr effeithir arnynt.

Yna dylid adfer oddi wrth y personau mwyaf priodol a all fod:

- Yr hawlydd
- Y person y gwnaed y taliad budd-dal iddynt
- Y person a gyflwynodd wybodaeth gamarweiniol neu a fethodd â datgelu ffaith faterol
- Partner yr hawliwr os oedd y partner yn byw gyda'r hawlydd ar adeg y gordaliad ac ar yr adeg y gwnaed y penderfyniad i adennill

Ym mhob achos lle'r oedd y gordaliad o ganlyniad i dwyll sydd wedi ei brofi, yn y lle cyntaf dylid ceisio adennill gordaliad oddi wrth y person a gamgynrychiolodd neu a fethodd â datgelu ffaith berthnasol

## **8 DULLIAU ADFER**

Bydd gordaliadau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor y gellir eu hadennill yn arwain at addasiad i gyfrif Treth Gyngor yr hawliwr ar gyfer y flwyddyn briodol. Bydd bil diwygiedig yn cael ei gyhoeddi a bydd unrhyw arian sydd heb ei dalu yn destun camau adfer o dan reoliadau'r Treth Cyngor (gweler Atodiad 1).

Dylid ystyried y dull mwyaf priodol o adfer ar gyfer Gordaliadau Budd-dal Tai ym mhob achos, gan gynnwys:

- Didyniadau parhaus o daliadau pellach o Fudd-dal Tai
- Didyniadau o fudd-daliadau eraill yr Adran Gwaith a Phensiynau
- Anfonebau dyledwr
- Adennill o'r landlord mewn achosion priodol
- Cyfeirio at asiantaeth casglu dyledion dan gontract y Cyngor (os yw'r holl lwybrau adfer uchod wedi bod yn aflwyddiannus)
- Gwneud cais i'r Llys Sirol am Ddyfarniad Llys Sirol (ar ôl i'r holl lwybrau adfer uchod gael eu hystyried neu wedi methu).

Dylai cyfnod o o leiaf un mis calendr fod wedi mynd heibio cyn cychwyn camau adfer. Bydd hyn yn caniatáu i'r hawlydd ail-ymgeisio am fudd-dal, a all adnabod hawl sylfaenol neu i'r hawlydd gofrestru unrhyw apêl.

Lle ceisir am ddidyniad o fudd-dal cyfredol dylid chwilio am yr uchafswm a ganiateir dan ddeddfwriaeth oni bai bod iechyd neu amgylchiadau ariannol yr hawlydd yn awgrymu y dylid defnyddio cyfradd fwy priodol.

## **9. DILEU DYLEDION**

Mae'r Cyngor yn cydnabod, lle bernir bod dyled yn anadferadwy, yn enwedig ar ôl ystyried yr holl opsiynau adfer a/neu, bod dileu dyledion o'r fath yn brydlon yn briodol ac yn arfer da mewn rhai amgylchiadau ac yn unol â'r polisi yn Atodiad 4.

## **1 CYFLWYNIAD**

Polisi'r Cyngor yw adennill yr holl ddyled gasgladwy sy'n ddyledus iddo. Mae Môn Ddyledion ac Incwm Amrywiol yn ddyledion sy'n ddyledus i'r Cyngor naill ai fel dyled 'unwaith ac am byth', ad-daliad neu ddyled barhaus reolaidd am wasanaethau, trwyddedau neu ffioedd eraill.

## **2 NODAU POLISI**

Nodau Polisi Adennill Môn Ddyledion ac Incwm Amrywiol y Cyngor yw:

- Sicrhau pryd bynnag y bo'n bosibl bod casglu'r ffi neu'r tâl dan sylw yn digwydd cyn i'r gwasanaeth gael ei ddarparu fel bod credyd ond yn cael ei roi pan fo'n hanfodol gwneud hynny;
- Hyrwyddo system rheoli credyd;
- Sicrhau bod gweithdrefnau anfonebu yn cael eu cynnal yn gywir ac yn amserol;
- Yn ei gwneud yn ofynnol bod y dystiolaeth honno i gefnogi'r anfoneb yn bodoli ar ffurf gorchymyn prynu swyddogol neu gytundeb ysgrifenedig arall;
- Annog dyledwyr i dalu'n brydlon; a
- Lle bo'n briodol, adennill dyledion drwy'r Llys Sirol.

Rhaid i unrhyw ffi neu dâl a osodir gan y Cyngor fod yn deg mewn perthynas â'r nwyddau a/neu'r gwasanaethau a ddarperir ac yn gyson â'r egwyddorion a nodir yn y Strategaeth Ffioedd a Thaliadau.

Rhaid i'r tâl adlewyrchu'r egwyddorion a amlinellir ym mholisi codi tâl priodol y Cyngor. Disgwylir i'r tâl, yn dibynnu ar ddeddfwriaeth, dalu am gost darparu nwyddau neu wasanaeth a chostau casglu, oni bai bod y Cyngor wedi gwneud penderfyniad polisi i sybsideiddio'r gwasanaeth.

Dylid cael y tâl lle bynnag y bo'n bosibl cyn i'r nwyddau a/neu'r gwasanaethau gael eu darparu. Rhaid casglu'r tâl a rhaid i ddogfennau ategol cadarn fod ar gael gyda mynediad amserol.

Bydd ffioedd a thaliadau yn cael eu hadolygu o leiaf bob blwyddyn fel rhan o'r broses o bennu'r gyllideb.

Bydd proses bilio a chasglu clir a phrydlon. Bydd dull clir a chyson ar draws y cyngor o roi credyd a chasglu dyled sy'n cael ei harwain gan y polisi hwn.

## **3 DILYSU AC ANFONEBU**

Rhaid i'r Gwasanaeth sy'n gyfrifol am godi'r anfoneb sicrhau bod tystiolaeth y gwasanaeth a ddarperir yn cael ei dilysu'n llawn a bod yr anfoneb yn gywir ac yn cynnwys digon o fanylion at ddibenion bilio ac adfer.

Rhaid codi pob anfoneb ar endid cyfreithiol a enwir yn gywir. Mewn achos o beidio â thalu, ni ellir cymryd camau cyfreithiol yn erbyn endid nad yw'n gyfreithiol.

## **4 DULLIAU A THELERAU TALU**

Gellir talu anfonebau drwy unrhyw un o'r dulliau a dderbynnir gan y Cyngor, fel sydd wedi ei nodi ar yr anfoneb (ble codir anfoneb). Bydd y Cyngor yn casglu arian sy'n ddyledus iddo yn llawn ac yn brydlon.

Gellir ystyried telerau talu dim ond pan na fydd y cwsmer yn gallu setlo'r ddyled yn llawn mewn un taliad. Ar ôl derbyn anfoneb, gall cwsmer ofyn am wneud trefniadau i glirio'r swm sy'n weddill trwy randaliadau misol. Dylid talu drwy ddebyd uniongyrchol lle bynnag y bo hynny'n bosibl.

## **5 TREFNIADAU CYFRIFEG**

Bydd y gwasanaeth perthnasol yn derbyn y credyd yn eu cyfrifon am y swm pan godir anfoneb. Lle na ellir adennill dyledion, bydd y credyd gwreiddiol yn cael ei ddebydu o gyllideb y gwasanaeth.

## **6 ADFERIAD A GWEITHREDU CYFREITHIOL**

Bydd adennill unrhyw ddyled yn cael ei gychwyn trwy gyflwyno hysbysiadau atgoffa ar gyfer yr holl anfonebau sy'n weddill.

Ym mhob achos arall lle mae ôl-ddyledion yn parhau, gwneir penderfyniad ynghylch a ddylid cyfeirio'r ddyled i asiantaeth gasglu, fydd yn mynd ati i geisio olrhain y ddyled gan gadw cyfran o unrhyw symiau a gesglir fel ffi am y gwaith.

Os na fydd asiantaeth gasglu yn llwyddiannus gall y Cyngor benderfynu mynd ar drywydd y ddyled yn y Llys Sirol drwy ddyfarniad Llys Sirol (CCJ). Lle ceir CCJ, bydd y Cyngor yn ceisio mynd ar drywydd adferiad trwy'r holl ddulliau cyfreithiol sydd ar gael iddo drwy'r llys megis Gorchmynion Taliadau ac Ansolfedd.

## **7 GWEITHDREFNAU**

Mae'r Cyngor yn cynnal gweithdrefnau Mân Dyledion a gweithdrefnau Incwm Amrywiol manwl llawn ar wahân i'r polisi hwn yn y Rheolau Gweithdrefn Ariannol.

## 1 PWRPAS Y POLISI DILEU

Mae Cyngor Gwynedd yn anelu at gasglu'r holl incwm sy'n ddyledus ond mewn rhai amgylchiadau ni fydd hyn yn gyraeddadwy oherwydd ei fod yn aneconomaidd neu nad yw er budd y cyngor neu'r dyledwr i gymryd camau i adennill y ddyled.

Mae'r polisi hwn yn manylu ar yr amgylchiadau lle gellir dileu dyledion a'r gweithdrefnau sy'n rhaid eu dilyn i gydymffurfio â'r Rheolau Gweithdrefn Ariannol ac i gofnodi'r dileu yn gywir.

Pan fydd swyddogion wedi adnabod dyledion sydd angen eu dileu bydd angen adolygu pob dyled sydd gan y dyledwr perthnasol a pharatoi atodlen ddileu ar gyfer awdurdodiad sy'n cwmpasu'r holl ddyledion perthnasol.

## 2 RHEOLIADAU ARIANNOL

Mae'r awdurdod i ddileu dyled hefyd yn cael ei amlinellu yn Rheolau Gweithdrefn Ariannol y Cyngor.

## 3 TRETH Y CYNGOR, ARDRETHI BUSNES A MÂN DDYLEDION

Bydd dyledion yn cael eu cyfeirio i'w dileu yn y sefyllfaoedd canlynol:

### Dyledion bychain

Dyledion sydd mor fychan (ychydig geiniogau neu bunnoedd) lle byddai'n gwbl anymarferol i olrhain y ddyled. Yn y mwyafrif o'r achosion hyn, byddai cyfran helaeth o'r ddyled wedi cael ei dalu.

### Methdaliad a / neu ddiddymiad

Ar ôl derbyn hysbysiad swyddogol, rhaid i swyddogion y Cyngor gyflwyno hawliad i'r derbynnydd am y symiau sy'n ddyledus ar ddyddiad methdaliad a / neu ddiddymiad. Gellir adfer y cyfan neu ran o'r ddyled os bydd y derbynnydd yn adennill unrhyw arian wedi hynny.

### Trefniadau Gwirfoddol Unigol, Gorchmynion Gweinyddu a Gorchmynion Rhyddhad Dyled

Pan fo dyledion wedi'u cynnwys mewn penderfyniad Llys Sirol, bydd y ddyled lawn yn cael ei throsglwyddo i'w dileu. Bydd y ddyled (neu rhan ohono) yn cael ei hadfer os bydd unrhyw arian yn cael ei adennill neu os caiff y Gorchmynion eu dirymu'n ddiweddarach.

### Wedi gadael

Mewn achosion lle mae dyledwyr yn symud gan adael dyledion, bydd gwiriadau cynhwysfawr yn cael eu gwneud gan gynnwys defnyddio sefydliadau trydydd parti a ffynonellau lleol. Pan fydd y gwiriadau hyn yn methu â dod o hyd i leoliad cyfredol y dyledwr bydd y ddyled yn cael ei dileu. Os bydd y dyledwr yn ailymddangos yna bydd y dileu yn cael ei wrthdroi a'r ddyled yn cael ei adfer.

### Costau

Ym mhob achos lle rhoddir gwŷs, ychwanegir costau llys, at y swm sy'n ddyledus. Os yw'r costau'n fwy na swm y ddyled mae gan staff y disgresiwn i leihau faint o gostau i elfen y llys o'r tâl, dim ond ar yr amod bod y ddyled wŷs yn cael ei thalu'n llawn cyn dyddiad gwrandawriad y llys.

### **Dyledwyr bregus**

Mewn achosion eithriadol, ceir dyledwyr bregus megis pobl hŷn, unigolion sydd yn fregus am y tro oherwydd amgylchiadau eithriadol, pobl anabl a'r rhai sydd â salwch terfynol. Dylid ystyried dileu'r dyledion hyn os oes tystiolaeth o lai o gapasiti meddyliol neu anallu i ddelio â'u materion ariannol eu hunain, ac nad oes unrhyw un yn alluog neu'n cael eu penodi i weithredu ar eu rhan.

### **Caledi eithafol**

Pan fo dyledwr yn talu'r uchafswm y gallant ei fforddio ar sail asesiad o'u hincwm a'u gwariant, ac mae ôl-ddyledion sylweddol yn parhau, gellir ystyried dileu rhai o'r ôl-ddyledion sail caledi. (Noder: Rhaid bod unrhyw hawl i fudd-dal wedi cael ei ymchwilio cyn dileu).

Gofynnir i'r dyledwr lenwi ffurflen ymholiadau incwm a gwariant yn flynyddol ac os yw ei amgylchiadau'n aros yr un peth i raddau helaeth bydd adroddiad llawn yn cael ei baratoi gyda'r bwriad o ddileu'r ddyled gyfan neu ran ohono.

### **Hen ddyledion**

Bydd dyledion dros chwe mlwydd oed, lle na dderbyniwyd unrhyw daliadau am 12 mis, yn cael eu hadolygu a gellir eu dileu ar yr amod bod gorchymyn atebolrwydd wedi'i roi a bod yr holl opsiynau adfer wedi'u disbyddu.

## **4 CYFRIFON SYDD MEWN CREDYD**

Bydd balansau credyd heb unrhyw gyfeiriad ymlaen, yn gyffredinol yn codi lle mae cyfrif wedi'i gau a balans credyd yn parhau. Os nad yw'r cyfeiriad anfon yn hysbys ac na ellir ad-dalu'r credyd trwy BACS yn uniongyrchol i gyfrif banc y trethdalwr, bydd y balans credyd yn cael ei ysgrifennu yn ôl.



# Asesiad Effaith Cydraddoldeb

Gweler y daflen *Sut i Wneud Asesiad Effaith Cydraddoldeb* am gymorth i lenwi'r ffurflen yma. Mae croeso hefyd i chi gysylltu gyda Delyth Williams, Swyddog Polisi a Chydraddoldeb ar est 32708, neu [DelythGadlysWilliams@gwynedd.llyw.cymru](mailto:DelythGadlysWilliams@gwynedd.llyw.cymru), am gymorth pellach.

Mae'n ofynnol i'r Cyngor (dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010) i ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb gwarchoddedig. Mae gan y Cyngor hefyd ddyletswyddau cyffredinol ychwanegol i sicrhau tegwch a meithrin perthnasau da. Rhaid felly gwneud Asesiad Effaith Cydraddoldeb amserol cyn gwneud penderfyniad ar unrhyw newid perthnasol (h.y. sy'n cael effaith ar bobl hefo nodwedd gwarchoddedig).

## I Manylion

### I.1 Beth yw enw'r polisi / gwasanaeth dan sylw?

Polisi Adennill

### I.2 Beth ydi pwrpas y polisi/gwasanaeth sy'n cael ei greu neu ei newid? Pa newidiadau sy'n cael eu hystyried?

Ffurfioli'r drefn sydd eisoes yn ei le ar gyfer casglu dyledion ac olrhain ôl-ddyledion.

### I.3 Pwy sy'n gyfrifol am yr asesiad yma?

Dewi Morgan, Pennaeth Cyllid

### I.4 Pryd wnaethoch chi gychwyn yr asesiad? Pa fersiwn yw hwn?

Chwefror 2024, pan ddaeth yn amlwg fod angen llunio polisi ysgrifenedig cyn gallu symud ymlaen i weithredu.

## 2) Gweithredu

### 2.1 Pwy yw'r partneriaid fydd yn rhaid gweithio hefo nhw i wneud yr asesiad yma?

Mae'r Polisi yn nodi'n ysgrifenedig yr hyn sydd eisoes yn digwydd o fewn yr Adran Gyllid.

### 2.2 Pa gamau ydych chi wedi ei cymryd i ymgysylltu gyda pobl hefo nodweddion gwarchoddedig, ynglŷn â'r iaith Gymraeg neu â chymunedau (un ai oherwydd lleoliad neu oherwydd angen) sy'n byw ag anfantais economaidd-gymdeithasol?

Gan mai ffurfioli'n ysgrifenedig yr hyn sydd eisoes yn digwydd sydd yma, ni fu cysylltiad gydag unrhyw garfannau penodol.

### 2.3 Beth oedd canlyniad yr ymgysylltu?

### 2.4 Ar sail pa dystiolaeth arall ydych chi'n gweithredu?

Awdurdodau lleol eraill sydd wedi gweithredu heb bolisi ysgrifenedig wedi cael eu cyhuddo o gamweinyddu gan yr Ombwdsmon am gymryd camau eithaf heb nodi yn unrhyw le beth fyddai'r drefn weithredu.

Mae risg o adolygiad barnwrol heb bolisi ysgrifenedig sydd wedi ei gymeradwyo'n briodol.

### 2.5 Oes yna unrhyw flychau yn y dystiolaeth sydd angen ei gasglu?

Na

### 3) Adnabod yr Effaith

3.1 Mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r effaith fydd unrhyw newidiadau'n ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb isod. Beth yw'r effaith fydd y polisi neu wasanaeth newydd neu'r newidiadau arfaethedig yn ei gael ar bobl hefo'r nodweddion hyn? Mae croeso i chwi ychwanegu nodweddion eraill os ydych chi'n dymuno.

<b>Nodweddion</b>	<b>Sut fath o effaith? *</b>	<b>Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth?</b>
<b>Hil (gan gynnwys cenedligrwydd)</b>	Dim	Bydd y Polisi yn cael ei weithredu ar sail y ddyled sy'n bodoli. Mae camau systematig yn cael eu defnyddio er mwyn adnabod y dyledion hynny sydd angen eu blaenoriaethu. Bydd camau yn cael eu cymryd i adnabod os oes gan y dyledwyr sefyllfa sy'n eu gwneud yn fregus ond nid oes sail y byddai'r polisi yn effeithio yn anghymesur ar unigolion gyda'r nodweddion yma.
<b>Yr iaith Gymraeg</b>	Dim	Gweler uchod
<b>Anabledd</b>	Dim	Gweler uchod
<b>Rhyw</b>	Dim	Gweler uchod
<b>Oedran</b>	Dim	Gweler uchod
<b>Cyfeiriadedd rhywiol</b>	Dim	Gweler uchod
<b>Crefydd neu gred (neu ddiffyg cred)</b>	Dim	Gweler uchod
<b>Ailbennu rhywedd</b>	Dim	Gweler uchod
<b>Beichiogrwydd a mamolaeth</b>	Dim	Gweler uchod
<b>Priodas a phartneriaeth sifil</b>	Dim	Gweler uchod

**3.2 Mae'n ddyletswydd ar y Cyngor dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 i gyfrannu'n bositif i gymdeithas decach trwy hybu cydraddoldeb a pherthynas dda yn ei weithgareddau ym meysydd oedran, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd, hil, trawsrywedd, anabledd a beichiogrwydd a mamolaeth. Mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r ffordd mae unrhyw newid yn effeithio'r dyletswyddau yma.**

<b>Dyletswyddau Cyffredinol y Ddeddf Cydraddoldeb</b>	<b>A yw'n cael effaith?*</b>	<b>Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth?</b>
<b>Cael gwared â cham-wahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth</b>	Na	Bwriad y polisi ydi ffurfioli yn ysgrifenedig yr hyn sydd eisoes yn digwydd. Nid oes unrhyw dystiolaeth, dros flynyddoedd o gasglu treth a dyledion eraill, fod dyledion, neu camau olrhain, wedi digwydd fel canlyniad i gam-wahaniaethu anghyfreithlon. Mae ymrwymiad yn y Polisi i gynnal hyfforddiant i staff ar ystod o faterion perthnasol, ac mae ymrwymiad i beidio camwahaniaethu.
<b>Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal</b>	Na	Mae'r Polisi yn ymwneud â chasglu dyledion, felly nid oes materion cyfleoedd cyfartal yn berthnasol.
<b>Meithrin perthnasau da</b>	Ydi	Gellid dadlau fod cael trefn wrthrychol, systematig i gasglu dyledion yn arddangos ymrwymiad i arddangos nad oes unrhyw garfan yn cael ffafriaeth gennym.

**4) Dadansoddi'r canlyniadau**

**4.1 Ydi'r polisi felly'n debygol o gael effaith sylweddol, bositif ar unrhyw un o'r nodweddion cydraddoldeb neu'r Ddyletswydd Gyffredinol? Beth yw'r rheswm am hyn?**

Na

**4.2 Ydi'r polisi felly'n debygol o gael effaith sylweddol, negyddol ar unrhyw un o'r nodweddion cydraddoldeb neu'r Ddyletswydd Gyffredinol? Beth yw'r rheswm am hyn?**

Na.

**4.3 Beth ddylid ei wneud?**

Dewiswch un o'r canlynol:

Parhau gyda'r polisi / gwasanaeth gan ei fod yn gadarn	✓
Addasu'r polisi i ddileu unrhyw rwystrau	
Atal a dileu'r polisi gan fod yr effeithiau niweidiol yn rhy fawr	
Parhau a'r polisi oherwydd gellir cyfiawnhau unrhyw effaith niweidiol	

**4.4 Os yn parhau hefo'r cynllun, pa gamau fyddwch chi'n cymryd i leihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol?**

Amherthnasol.

**4.5 Os nad ydych yn gweithredu ymhellach i ddileu neu leihau effeithiau negyddol, esboniwch pam yma.**

**5) Monitro**

**5.1 Pa gamau fyddwch chi'n gymryd i fonitro effaith ac effeithiolrwydd y polisi neu wasanaeth (cynllun gweithredu)?**

Gan na fydd newidiadau yn y gweithdrefnau ni fydd angen sylw penodol y tu hwnt i waith rheolaethol arferol i fonitro perfformiad a chwynion.